



Cynllun Gwella Ysgol

2026 – 2027

Crynodeb



**Ysgol Gynradd
Gwaelod y Garth
Primary School**



Gweledigaeth yr Ysgol

Ysbrydoli – Cefnogi – Llwyddo

Ein nod fel ysgol yw darparu'r safonau addysgu a'r cefnogaeth gorau posibl i bob disgybl o fewn amgylchedd lle bo gan bawb gyfleoedd niferus i gyflawni a rhagori ar eu potensial.

Mae ein cymuned a'n cynefin yma yn ysgol Gwaelod y Garth yn darparu amrediad o gyfleoedd cyfoethog sydd yn **ysbrydoli** ein disgyblion i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol ac ymchwilgar. Mae'r ardal wledig, y goedwig a'r mynydd yn rhoi profiadau awyr agored buddiol ac yn annog annibyniaeth a chwilfrydedd. Mae'r gymuned yn rhan annatod o'n cynefin ac rydym yn cydweithio ag aelodau'r gymuned i adeiladu ar yr ymdeimlad o **berthyn** sy'n nodweddiadol i ni. Mae'r cyd-berthynas weithredol yma yn ganolog i fywyd ysgol Gwaelod y Garth wrth i botensial pob disgybl gael ei feithrin yn yr ysgol, yn y gymuned a thu hwnt.

Mae dwyieithrwydd yn cael ei ddathlu yn ein hysgol a'r cydweithio naturiol rhwng y ddwy ffrwd yn ein galluogi i feithrin disgyblion hyderus sy'n ymfalchïo yn eu hiaith a'u diwylliant. Bydd pob disgybl yn cael eu herio ac mae disgwyliadau uchel yn rhan annatod o'n hysgol. Bydd pob disgybl yn derbyn pob **cefnogaeth** posib er mwyn **llwyddo** ac ymfalchïwn yn yr ethos cefnogol, cynhwysol sydd yn ein hysgol. Caiff pob disgybl eu hannog i fod y gorau y gallant fod.

Yn sgil ein pwyllgorau **Llais**, rydym yn annog pob disgybl i gyfrannu at fywyd ein hysgol ac i wneud penderfyniadau strategol. Cant eu hannog i wneud dewisiadau fydd yn cael effaith gadarnhaol ar eu hysgol, eu cymuned, eu gwlad a'r byd ehangach. Gwerthfawrogwn natur aml ddiwylliannol ein hardal a'r brif ddinas, gan annog disgyblion parchus a gofalgwr sy'n dathlu eu gwahaniaethau. Yn Ysgol Gwaelod y Garth rydym yn ymfalchïo yn ein hunaniaeth a'n Cymreictod ac mae ein cwricwlwm yn dathlu ein hieithoedd, ein hanesion, ein diwylliant a'n cynefin.



Gwerthusiad o Gynllun Datblygu Ysgol 2025-26

Blaenoriaeth 1: Medrau Llythrennedd: Sut allwn ni ddatblygu ymhellach i roi cyfleoedd ychwanegol i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau llafar a darllen Cymraeg?

Gwerthusiad: Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu medrau llafar a darllen disgyblion, gyda staff yn cynllunio ystod ehangach o brofiadau llafar ac yn defnyddio dulliau effeithiol i gefnogi datblygiad Cymraeg a Saesneg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gwell hyder wrth lefaru ac yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau ffoneg a darllen, gyda staff yn defnyddio data yn effeithiol i adnabod a chefnogi'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol. Yn ogystal, mae gwelliannau i'r amgylchedd darllen a'r ystod o adnoddau wedi cynyddu mwynhad ac ymgysylltiad y rhan fwyaf o ddisgyblion â darllen.

Blaenoriaeth 2: Addysgeg: Sut allwn ni ddatblygu a chysoni addysgeg effeithiol i sicrhau bod dysgwyr yn gwneud y cynnydd gorau posib?

Gwerthusiad: Mae'r flaenoriaeth hon wedi'i chyflawni'n llwyddiannus, gyda mwy o gysondeb mewn addysgu a dysgu ar draws yr ysgol, gan alluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd da a chyson ar draws y cwricwlwm. Mae bron pob disgybl yn derbyn darpariaeth sydd wedi'i haddasu i'w hanghenion, ac mae'r rhan fwyaf yn dangos hyder cynyddol wrth ddatrys problemau, rhesymu mathemategol a chymhwyso eu medrau mewn cyd-destunau ystyrlon ac annibynnol. Mae lle i wneud defnydd pellach ac estynedig o'r amgylchedd allanol.

Blaenoriaeth 3: Asesu a thracio: Sut allwn ni adeiladu ar systemau tracio presennol er mwyn sicrhau safonau uchel, adnabod angen yn gynnar ac adnabod camau nesaf i bob disgybl?

Gwerthusiad: Mae'r flaenoriaeth hon wedi'i chyflawni'n llwyddiannus, gyda bron pob aelod o staff yn hyderus wrth adnabod anghenion dysgu ychwanegol a defnyddio gwybodaeth asesu i gynllunio cymorth effeithiol. Mae cyfarfodydd cynnydd tymhorol wedi'u sefydlu'n gadarn ac yn sicrhau bod disgyblion sy'n wynebu rhwystrau i ddysgu yn cael eu hadnabod yn brydlon ac yn derbyn ymyriadau pwrpasol, lle bo hynny'n bosib. Yn ogystal, mae prosesau olrhain llythrennedd gweithredol a defnydd effeithiol o'r offeryn Barn Gymharol wedi cryfhau dealltwriaeth staff yr adran o ddilyniant mewn ysgrifennu ac wedi helpu i gynllunio camau nesaf clir i gefnogi cynnydd disgyblion.

Blaenoriaeth 4: Lles a Chynhwysiant: Sut allwn ni ddatblygu ein defnydd o ddulliau adferol ac oes posib cyfoethogi ein darpariaeth les a chynhwysiant mewn ffordd sydd yn hybu les pawb?

Gwerthusiad: Mae'r flaenoriaeth hon wedi'i chyflawni'n llwyddiannus, gyda bron pob aelod o staff a'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio dulliau adferol yn gyson, gan gyfrannu at ddiwylliant cadarnhaol o les, parch a pherthnasoedd cryf ar draws yr ysgol. Mae gwaith effeithiol i adnabod a chefnogi dysgwyr sy'n wynebu anfantais wedi arwain at weithredu strategaethau pwrpasol i leihau effaith tlodi. Mae presenoldeb yn gryf ac mae safonau uchel o les i'r rhan fwyaf o ddisgyblion a staff. Mae dealltwriaeth o hawliau plant, amrywiaeth a gwrth-fwlio wedi cryfhau ymhlith disgyblion, staff a rhieni, gan gyfrannu at lwyddiant yr ysgol wrth ennill Gwobr Arian Ysgolion Sy'n Parchu Hawliau a chynyddu cyfranogiad rhieni ym mywyd yr ysgol.



Gwerthusiad o ganfyddiadau hunanwerthuso yr ysgol

Cryfderau	Meysydd i'w datblygu
MA1: Addysgu a Dysgu - Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gosod disgwyliadau uchel ac yn darparu lefel briodol o her sy'n galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. - Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ac yn cymhwysu eu medrau llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol a'r Gymraeg yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cyson yn ystod gwersi ac dros amser. - Mae athrawon yn cynllunio ystod o brofiadau dysgu ystyrlon sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion ac yn hyrwyddo eu cyfranogiad gweithredol. - Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu ac yn ymgysylltu'n bwrpasol â'u gwaith. Mae llawer yn dangos gwydnwch a dyfalbarhad, ac mae'r rhan fwyaf yn datblygu fel dysgwyr annibynnol o oedran cynnar. - Ceir amgylchedd dysgu cefnogol a chynhwysol lle mae perthnasoedd gwaith rhwng staff a disgyblion, ac ymhlith disgyblion eu hunain, yn gryf ac yn seiliedig ar barch cydfuddiannol. - Yn gyffredinol, mae amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant yn glir ac yn bwrpasol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu adborth amserol ac effeithiol sy'n helpu disgyblion i ddeall eu cryfderau a'r camau nesaf yn eu dysgu.	- Sicrhau bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau darllen - Sicrhau bod y ddarpariaeth a'r cynllunio bob amser yn ystyrlon a phwrpasol - Rhoi addysgegau arloesol ar waith er mwyn sicrhau y cynnydd gorau i bob disgybl - Datblygu profiadau dysgu awyr agored i hybu brwdfrydedd a lles disgyblion ymhellach.
MA2: Lles, Gofal, Cymorth ac Arweiniad - Mae'r ysgol yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel mewn amgylchedd diogel, gofalgwr a chynhwysol sy'n rhoi blaenoriaeth i les pob disgybl. - Mae presenoldeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda (95.3%) ac mae presenoldeb grwpiau o ddisgyblion yn dda iawn (ADY 95.7%, PYDd 93.1%). Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb yn effeithiol ac yn gweithredu ystod o ymyriadau i gefnogi gwelliant lle bo angen. - Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda iawn ac yn dangos lefel uchel o barch at eraill. Mae ymdeimlad cryf o gymuned a pherthyn yn amlwg ar draws yr ysgol. - Mae gan ddisgyblion lais cryf ym mywyd yr ysgol ac maent yn cyfrannu'n effeithiol at wneud penderfyniadau. Mae cyfleoedd arweinyddiaeth wedi'u cynllunio'n fwriadus ac, o ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n arweinwyr hyderus ac effeithiol. - Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn gryf. Mae prosesau adnabod, cynllunio a monitro yn effeithiol, gan sicrhau bod bron pob disgybl ag ADY yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.	- Cryfhau ymrwymiad yr ysgol i degwch a lleihau effaith tlodi gan adeiladu ar awdit 2025-26 - Dyfnhau ac ymwreiddio ymagwedd ysgol gyfan at ddulliau adferol i sicrhau bod yr arferion yn hunan-gynaliadwy i'r dyfodol ac yn gyson ym mholisiau'r ysgol - Sicrhau cysondeb a rhagoriaeth ymhlith yr holl staff wrth ymateb i niwro-amrywiaeth a thrawma



MA3: Arwain a Gwella

- | | |
|---|---|
| <ol style="list-style-type: none">1. Mae arweinwyr ar bob lefel yn darparu cyfeiriad strategol clir ac yn hyrwyddo gweledigaeth sy'n rhoi pwyslais ar ddysgu, lles a gwelliant parhaus.2. Mae arweinwyr yn defnyddio adnoddau dynol, ariannol a ffisegol yn effeithiol i gefnogi blaenoriaethau gwella'r ysgol, i wella deilliannau disgyblion ac i ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol.3. Mae trefniadau hunanwerthuso yn drylwyr ac yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Defnyddir canfyddiadau'n effeithiol i nodi cryfderau a blaenoriaethau datblygu.4. Mae llywodraethwyr yn cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd i'w gwella. Maent yn darparu cymorth a her briodol i arweinwyr.5. Mae cynllunio ar gyfer gwella yn glir ac wedi'i gysylltu'n agos â blaenoriaethau'r ysgol. O ganlyniad, mae'r ysgol yn cynnal a sicrhau gwelliant parhaus. | <ul style="list-style-type: none">• Datblygu ymhellach rôl arweinwyr canol fel arweinwyr addysgeg er mwyn cryfhau cysondeb yn ansawdd addysgu a dysgu ar draws yr ysgol.• Mireinio prosesau tracio ymhellach i fod mor effeithiol ag sydd yn bosib wrth adnabod angen a thargedu cymorth.• Cryfhau ymhellach y cysylltiad rhwng blaenoriaethau gwella, DPP staff a deilliannau dysgwyr. |
|---|---|



Blaenoriaethau Cynllun Gwella Ysgol 2026-27

Blaenoriaeth	Camau Allweddol
1. Medrau Darllen: Sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau darllen trwy ddefnyddio addysgeg sy'n seiliedig ar dystiolaeth, targedu cymorth ac ymrwymo i amgylchedd sy'n hybu darllen ar draws yr ysgol.	- Cynnal ymyrraeth llythrennedd dosbarth gyfan 'RILL' ym mlynnyddoedd 3 a 4 - Cynnal rhaglen DPP llythrennedd CAL:ON i bob aelod staff - Datblygu tracio Tric a Chlic i fod yn fwy soffistigedig - Cyflwyno rhaglen ffoneg Monster Phonics yn yr Adran Saesneg ac ym Mlwyddyn 3 - Cyflwyno rhaglen sillafu newydd 'Ants and Bees' / geiriau allweddol 400 gair - Codi safonau Cymraeg Craidd (ail iaith)
2. Cynllunio Pwrpasol: Cryfhau dulliau cynllunio i fod yn fwriadol, cydlynol a phwrpasol, yn unol â Chwricwlwm i Gymru, ac i sicrhau bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da o ganlyniad i fynediad at brofiadau dysgu diddorol, dilys a phwrpasol.	- Addasu dulliau cynllunio tymor canol a byr gan ddefnyddio Byrddau Stori - Adolygu cyd-destunau dysgu er mwyn sicrhau eu bod yn bwrpasol ac yn ystyrlon - Datblygu gweledigaeth gytûn o gynnydd yn y 4 Diben - Sicrhau bod y ddarpariaeth barhaus yn gyson uchelgeisiol a phwrpasol - Cynyddu'r ddarpariaeth cwricwlwm awyr agored - Darparu hyfforddiant Arweinwyr Canol i gryfhau ansawdd arweinyddiaeth - Addasu prosesau rheoli perfformiad i adnabod, dathlu a rhannu arfer dda
3. Addysgeg Arloesol: Datblygu ac ymwreiddio arferion addysgu arloesol sy'n hyrwyddo cyfranogiad cadarn gan wella ansawdd dysgu a chynnig her effeithiol i bob disgybl.	- Datblygu addysgeg addysgu addasol - Sicrhau bod pob aelod staff yn fedrus wrth gwestiynu er mwyn herio ac ymestyn - Rhaeadru'r dull CPA ar draws yr ysgol i gynyddu hyder yn y 5 hyfedredd - Hyfforddiant staff i ddefnyddio trinolion mathemategol yn fwy effeithiol - Darparu hyfforddiant a chyfleoedd ymarferol i ddefnyddio technolegau newydd ac AI yn ddiogel ac yn effeithiol - Datblygu ymhellach addysgeg Froebel yn y Feithrin a'r Blynnyddoedd Cynnar.
4. Lles a Chynhwysiant: Sicrhau bod pob disgybl yn ffynnu yn gymdeithasol ac yn emosiynol trwy gryfhau'r ddarpariaeth lles o fewn amgylchedd dysgu sy'n gynhwysol ac yn deg i bawb.	- Sicrhau'r arferion gorau i gefnogi disgyblion niwro-amrywiol trwy hyfforddiant ac awdit <i>Autism Education Trust</i> - Datblygu 'Toolkit' ymwybyddiaeth o drawma - Datblygu a gweithredu Polisi Bwlch Tlodi a chreu Cynllun Gweithredu Bwlch Tlodi - Sicrhau bod hawliau plant yn llywio penderfyniadau, polisïau ac arferion ar draws yr ysgol - Dadansoddi a defnyddio canfyddiadau SHRN a WSAMWB i addasu'r cwricwlwm - Dyfnhau a gwreiddio ymagwedd ysgol gyfan at ddulliau adferol a datblygu arferion cynaliadwy i'r dyfodol



	Cerrig Milltir Rhagfyr	Cerrig Milltir Mawrth	Cerrig Milltir Gorffennaf
B1: Darllen	- Rhaglen 20 wythnos RILL ar waith - Asesiadau OdEx B3-5 wedi'u cwblhau - Rhaglen Monster Phonics ar waith yn B3 a 2E - Disgyblion yn derbyn ymyrraeth o ganlyniad i dracio llythrennedd gweithredol - Pob dosbarth yn gwrandao ar lenyddiaeth pob dydd - Tasg ysgrifennu oer tymhorol wedi sefydlu - Ffordd ymlaen Ants and Bees / 400 gair yn glir - Mapiau llafar ail-iaith yn arwain at godi safonau	- Rhaglen hyfforddiant 8-modiwl staff gyfan CAL:ON wedi'i gwblhau - Addasu rhaglenni ac ymyrraethau sillafu a darllen dosbarth gyfan i adlewyrchu ffordd ymlaen Ants and Bees / 400 gair	- Asesiadau OdEx B3-5 dilynol wedi'u cwblhau ac yn dangos cynnydd ym medrau darllen a llafar disgyblion ar draws y grwpiau dysgu. - Tystiolaeth bod tasgau oer yn arwain at ddarpariaeth pwrpasol i bob plentyn - Cynnydd yn medrau gwrandao disgyblion - Mapiau llafar ail-iaith yn arwain at godi safonau - Mwy o ddisgyblion ar drac i gyrraedd llythrennedd gweithredol
B2: Cynllunio	- Cynllunio tymor canol bellach ar ffurf Byrddau Stori a'r 'pam' yn gliriach - Fformat cynlluniau tymor byr wedi addasu ac yn fwy effeithiol ac effeithlon - Darpariaeth barhaus yn gyson yn uchelgeisiol ac yn bwrpasol - Amser Antur wedi sefydlu - Hyfforddiant awyr agored wedi rhaeadru - Arweinwyr canol wedi derbyn hyfforddiant - Rheoli perfformiad yn ymgysylltu'n glir ag adborth monitro - Rhannu arfer dda wedi cynyddu o fewn yr ysgol	- G&G yn dangos gwell ymgysylltiad disgyblion o ganlyniad i'r newid ym mhwyslais y cynllunio - Cynlluniau tymor canol yn gynyddol bwrpasol at anghenion disgyblion penodol y dosbarth	- Cylchdro a chyd-destunau dysgu wedi'u hadolygu a'u haddasu - Gweledigaeth gytûn gan holl staff yr ysgol o gynnydd yn y Pedwar Diben - Dealltwriaeth gytûn gan holl staff yr ysgol o arfer orau a gweithdrefnau gosod Nod, MPLL a Her - Adborth monitro a chefnogaeth dilynol wedi gyrru gwelliant ar draws yr ysgol - Cynlluniau tymor canol yn gynyddol bwrpasol at anghenion disgyblion penodol y dosbarth
B3: Addysgeg	- Staff arweiniol wedi derbyn hyfforddiant Addysgu Addasol (HS GW HD) - Pob aelod staff wedi derbyn hyfforddiant CPA (Athro Ban Har) - Staff wedi derbyn hyfforddiant trinolion - Staff wedi derbyn HMS addysgu digidol - Partneriaeth wedi sefydlu â Met Caerdydd i ddatblygu addysgeg Froebel - Asesu Gwaelodlin B1 wedi sefydlu	- Hyfforddiant a rhwydweithio pellach addysgu addasol - Pob aelod staff yn defnyddio dull CPA wrth addysgu Mathemateg - Defnydd cyson o drinolion - Staff yn defnyddio DPP digidol HMS yn reolaidd - Staff blynyddoedd cynnar yn datblygu dealltwriaeth Froebel ymhellach	- Holl staff wedi derbyn hyfforddiant trinolion ac yn eu defnyddio'n fwy effeithiol i hybu cynnydd - Froebel wedi sefydlu yn y blynyddoedd cynnar - Effeithiolrwydd Addysg Addasol wedi'i werthuso a phenderfyniad am ffordd ymlaen - Arferion cwestiynu effeithiol a chyson yn dyfnhau dysgu - Dull CPA yn gadarn a staff yn hyderus - Addysgeg Froebel yn gadarn yn Meithrin a Derbyn
B4: Cynhwysiant	- Staff gyfan wedi derbyn hyfforddiant AET - Awdit AET wedi'i gynnal a chynllun gweithredu ar waith - Polisiâu ac arferion yn gynyddol ystyried Hawliau - Holiaduron SHRN wedi cwblhau - Dulliau Adferol – rhaglen Blwyddyn 3 wedi'i osod - Boreau coffi wedi cychwyn (Awtistiaeth)	- Toolkit trawma wedi'i greu - Polisi bwlich tlodi a chynllun gweithredu bwlich tlodi clwstwr yn eu lle ac yn effeithio arferion dyddiol - Polisiâu ac arferion yn gynyddol ystyried Hawliau - Staff wedi derbyn hyfforddiant pellach Adferol ac yn hyderus wrth weithredu	- Data SHRN wedi dadansoddi, cynllun gweithredu wedi'i greu a'r cwricwlwm wedi'i ddiwygio - Pob aelod staff yn gyson yn ymateb o fewn fframwaith ymwybyddiaeth o drawma a niwro-amrywiaeth - Pob agwedd o fywyd ysgol yn gyson ag egwyddorion parchu hawliau a'r llwybr yn gadarn at y Wobr Aur. - Rhaglen boreau coffi yn gyflawn